Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gwynedd**
**Rhodfa Tywysog Cymru**
**Y Fflint**
**Sir y Fflint**
**CH6 5NF**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 25/11/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gwynedd yn y Fflint, yn awdurdod lleol Sir y Fflint. Mae 441o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, gan gynnwys 62 sy'n mynychu'r feithrinfa yn rhan-amser. Mae dau ddosbarth meithrin a 15 o ddosbarthiadau cyffredin yn yr ysgol. Mae 17 o athrawon amser llawn a dau athro rhan-amser.

Mae rhyw 28% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 21%. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ac yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 27% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Nifer fach iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2008. Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd er 2006.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gwynedd yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,543 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir y Fflint yw £15,097 a'r lleiafswm yw £2,912. Mae Ysgol Gwynedd yn safle 39 o'r 72 ysgol gynradd yn Sir y Fflint o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud drwy'r ysgol;
- mae medrau siarad a gwrando a medrau darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gadarn;
- mae ymddygiad yn dda, ac mae gan bron pob un o'r disgyblion agwedd gadarnhaol iawn at eu gwaith;
- mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol iawn, lle caiff yr holl ddisgyblion eu trin yn gyfartal ac â pharch;
- mae'r athrawon yn fodelau rôl da ac mae ganddynt berthnasoedd gweithio da gyda'u disgyblion;
- mae'r cynorthwywyr addysgu yn cyfrannu'n effeithiol at ddysgu a lles disgyblion;
- mae cynnydd disgyblion ag anghenion ychwanegol yn dda; ac
- mae menter ddiweddar, yn cyflwyno rhaglen ffoneg strwythuredig, wedi helpu codi perfformiad disgyblion mewn darllen a sillafu

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth yn rhoi arweinyddiaeth a chyfeiriad cadarn i'r ysgol;
- mae systemau effeithiol ar waith i gasglu tystiolaeth uniongyrchol am berfformiad yr ysgol;
- mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac maent yn gweithio'n dda â'i gilydd;
- mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda; ac
- mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau buddiol sy'n cefnogi'r ysgol yn effeithiol.

## Argymhellion

A1 Gwella safon medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion mewn gwaith ar draws y cwricwlwm

A2 Gwella cysondeb ac ansawdd yr adborth i ddisgyblion

A3 Sicrhau bod athrawon yn defnyddio asesiadau disgyblion yn fwy effeithiol, i gynllunio cyfleoedd dysgu sy'n cynnig her effeithiol i bob un o'r disgyblion

A4 Gwella ansawdd cynlluniau datblygu'r ysgol

A5 Defnyddio'r canfyddiadau o brosesau hunanarfarnu yn fwy effeithiol i nodi tueddiadau yn neilliannau disgyblion, ac asesu effaith mentrau ar addysgu a dysgu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae asesiad gwaelodlin yr ysgol yn dangos bod gan lawer o'r disgyblion wybodaeth, dealltwriaeth a medrau ar y lefel a ddisgwylir neu islaw'r lefel a ddisgwylir am eu hoed wrth gychwyn yn yr ysgol. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u man cychwyn wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn glir ac yn mynegi'u syniadau yn hyderus. Maent yn mwynhau sôn am eu profiadau a'u hysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn mwynhau darllen ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o destunau gwahanol. Mae'r rhan fwyaf yn darllen ar goedd yn rhugl a gyda mynegiant. Defnyddiant eu medrau ffonig a strategaethau eraill yn dda i'w helpu i weithio allan sain ac ystyr geiriau anghyfarwydd. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'u medrau ysgrifennu. Ysgrifennant gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa ddiddorol i fynegi'u syniadau, gan ddefnyddio brawddegau syml yn gywir. Gwnânt ddefnydd da o'r medrau ffonig y maent wedi'u dysgu i sillafu geiriau syml yn gywir. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod o atalnodi'n gywir, gan gynnwys atalnodau llawn a phriflythrennau. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn defnyddio comas a dyfynodau yn gywir. Er eu bod yn ysgrifennu at ystod o ddibenion gwahanol, cyfyngedig yw gallu disgyblion i ysgrifennu'n estynedig mewn gwersi llythrennedd ac mewn gwaith ar draws y cwricwlwm.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynegi'u syniadau yn glir a hyderus. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u gwaith, er enghraifft, pan fyddant yn siarad am eu testun ar y Fictoriaid. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o destunau. Defnyddiant fedrau darllen lefel uwch yn effeithiol mewn pynciau gwahanol, er enghraifft, wrth ymchwilio i fywgraffiadau ar y rhyngrwyd. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu addas ar draws genres ysgrifennu gwahanol, ond nid ydynt yn ysgrifennu'n estynedig i ddatblygu syniadau neu ddadleuon yn ddigon da. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn strwythuro'u hysgrifennu mewn paragraffau wedi'u trefnu'n dda, yn talu sylw addas i atalnodi ac yn defnyddio paragraffau'n briodol i gyflwyno syniadau'n gydlynus i'r darllenydd. Gwna'r rhan fwyaf ohonynt ddefnydd addas o'u medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u gwybodaeth am rifau yn dda i ddatrys problemau sy'n cynnwys arian, siapiau a mesuriadau. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymchwilio i b'un a oes traed mwy gan ddisgyblion talach, a defnyddiant ddarnau arian yn gywir i brynu eitemau o'r siop Divali. Defnyddiant ystod o offer ymarferol yn briodol i'w cynorthwyo gyda'u cyfrifiadau, a chofnodant eu canlyniadau'n gywir.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod o ddulliau wrth adio, tynnu, lluosi neu rannu, ac mae ganddynt strategaethau addas ar

gyfer gwirio cywirdeb eu cyfrifiadau. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd priodol o'u medrau mathemategol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft pan fyddant yn mesur a chymharu hyd cysgodion ar amserau gwahanol o'r diwrnod o amgylch yr ysgol.

Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd da mewn dysgu Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen. Gallant ddefnyddio cyfarchion ac ymadroddion syml yn llwyddiannus. Maent yn deall ystod o gyfarwyddiadau a gorchmynion, er enghraifft wrth fynd am dro gwrando yn yr awyr agored. Fodd bynnag, mae diffyg dilyniant yn ystod y patrymau iaith a geirfa a ddefnyddir gan ddisgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Nid yw medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol yng nghyfnod allweddol 2.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau meddwl yn dda, er enghraifft pan fyddant yn cynllunio taith i'r lleuad ac wrth ddewis deunyddiau i wneud siglwr swnllyd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn datblygu'u medrau meddwl a datrys problemau yn effeithlon, er enghraifft wrth ysgrifennu dyddiadur o safbwynt plentyn yn oes Fictoria.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau TGCh yn dda ar gyfer prosesu geiriau, ymchwil a chyflwyniadau, ond nid yw eu dealltwriaeth o ystod eang o raglenni, yn enwedig taenlenni, modelu a chronfeydd data, wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae bron pob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rheini sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, yn gwneud cynnydd da neu well yn erbyn eu targedau erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Dros y tair blynedd diwethaf, o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg, mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen wedi amrywio o ran y deilliant 5 disgwyliedig. Yn 2014 ac yn 2012, fe wnaeth perfformiad disgyblion mewn medrau llythrennedd a rhifedd osod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg, ac yn 2013, yn y 25% uchaf. O ran y deilliant 6 uwch, mae perfformiad disgyblion o ran medrau llythrennedd a rhifedd wedi dirywio. Yn 2014, fe wnaeth perfformiad disgyblion osod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn sgil perfformiad yn 2013, roedd yr ysgol yn y 50% uwch. Yn 2012, fe wnaeth perfformiad disgyblion o ran deilliant 6 osod yr ysgol yn y 50% is ar gyfer llythrennedd a'r 50% uwch ar gyfer medrau rhifedd o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 2, fe wnaeth perfformiad disgyblion ar y lefel 4 ddisgwyliedig osod yr ysgol yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg o ran y dangosydd pwnc craidd, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn 2014. Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol yn gyson yn y 50% is o ysgolion tebyg. Ar y lefel 5 uwch, mae perfformiad disgyblion dros y tair blynedd diwethaf wedi gosod yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 50% uwch ar gyfer Saesneg. Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol yn gyson yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Er bod perfformiad yr ysgol ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi'i gosod yn gyson yn y 50% is o ysgolion tebyg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau unigol. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 yn gwella yn gyffredinol.

Yn 2013, yn y Cyfnod Sylfaen, fe wnaeth disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim berfformio cystal â'u cyfoedion mewn medrau llythrennedd, ac roedd eu perfformiad yn well na'u cyfoedion mewn medrau mathemategol o ran y deilliant 5 disgwyliedig. O ran y deilliant 6 uwch, ni wnaeth disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim berfformio cystal â'u cyfoedion mewn medrau llythrennedd a medrau mathemategol.

Yng nghyfnod allweddol 2, nid oedd perfformiad disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim gystal â'u cyfoedion yn yr holl bynciau ac ar y lefelau disgwyliedig ac uwch.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda, mewn dosbarthiadau ac o amgylch yr ysgol. Maent yn gwrtais ac yn siarad yn hyderus â disgyblion eraill, staff ac ymwelwyr. Mae disgyblion yn ofalgar o'i gilydd. Mae hyn i'w weld yn amlwg yn eu hagwedd gadarnhaol iawn tuag at ddisgyblion o'r ysgol arbennig gyfagos. Mae disgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldeb yn effeithiol, er enghraifft pan fyddant yn cynorthwyo'u cyfoedion fel gofalwyr coridor, e-gadetiaid a monitoriaid. Mae disgyblion yn mwynhau'r ysgol, ac yn teimlo'n ddiogel yn gyffredinol. Ymgysylltant yn dda yn ystod gwersi ac maent yn falch o'u gwaith. Mae bron pob un ohonynt yn gwrando'n dda mewn gwersi. Mae disgyblion yn cydweithio'n dda â'u cyfoedion ac yn dangos dyfalbarhad mewn gwaith annibynnol.

Mae dealltwriaeth dda o sut i fyw bywydau iach gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Maent yn cydnabod yr angen i wneud ymarfer corff yn rheolaidd a buddion bwyta byrbrydau a chiniawau iach.

Mae'r agwedd gadarnhaol sydd gan bron pob un o'r disgyblion at bob agwedd ar fywyd yr ysgol yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn gysylltiedig â hyrwyddo ethos yr ysgol ac â gwella eu hamgylchedd ysgol trwy gyngor yr ysgol a'r cyngor eco. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn codi arian, er enghraifft i wella adnoddau ailgylchu ac i gyfrannu at gynllunio ardal chwarae awyr agored yr ysgol.

Mae cyfradd bresenoldeb yr ysgol am y tair blynedd diwethaf yn cyfateb yn gyson i gyfartaledd ysgolion tebyg. Fe wnaeth presenoldeb wella i bron i 94% yn 2013. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni anghenion llawer o ddisgyblion. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n dda ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Ceir trefniadau da i gefnogi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt ar gyfer datblygu medrau sylfaenol.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd cyson wrth gynllunio'n effeithiol ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae cyflwyno rhaglen strwythuredig i ddatblygu medrau ffonig disgyblion wedi cael effaith gadarnhaol ar sillafu a darllen disgyblion. Caiff y disgyblion gyfleoedd buddiol i ddefnyddio TGCh mewn gwersi, ond nid yw'r ystod gul o raglenni sydd ar gael yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau presennol yn effeithiol ac adeiladu arnynt.

Mae ethos Cymreig cryf yn yr ysgol sy'n galluogi disgyblion i glywed a defnyddio ymadroddion Cymraeg syml trwy gydol y dydd. Mae staff yn y Cyfnod Sylfaen yn darparu cyfleoedd cyson dda i ddisgyblion ddatblygu'u medrau Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn datblygu medrau disgyblion gystal yng nghyfnod allweddol 2. Mae disgyblion yn dysgu am ddiwylliant Cymru'n effeithiol trwy ddysgu am fythau a chwedlau Cymru, astudiaethau o artistiaid Cymreig ac ymweliadau â safleoedd treftadaeth yng Nghymru.

Gwna'r ysgol ddarpariaeth dda i ddisgyblion weithredu'n gynaliadwy wrth ddefnyddio ynni, lleihau gwastraff ac ailgylchu. Mae astudiaethau o wledydd eraill, yn cynnwys Nepal ac Uganda, yn helpu disgyblion i gael dealltwriaeth dda o'u lle yn y byd ehangach.

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys clybiau chwaraeon a chelf. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau cerddorol a chwaraeon tymhorol, sy'n gwella medrau disgyblion ac yn annog gwaith tîm. Gwna'r ysgol ddefnydd addas o ymweliadau preswyl sy'n cefnogi'r cwricwlwm yn dda.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn cynllunio ystod o wersi sy'n ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion yn dda, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen. Mae pob un o'r athrawon yn gweithio'n llwyddiannus gyda'r cynorthwywyr addysgu i gefnogi gwaith disgyblion. Mae ganddynt wybodaeth bynciol ddiweddar a defnyddiant ystod dda o ddulliau addysgu. Ym mhob dosbarth bron, mae'r staff yn gwneud defnydd da o adnoddau sydd wedi'u paratoi'n dda i wella'r dysgu. Mae gan bob un o'r athrawon berthnasoedd gweithio cefnogol a chadarnhaol â'r disgyblion. Mae strategaethau effeithiol gan bron pob un ohonynt i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn y dosbarth. Ym mwyafrif y dosbarthiadau, mae athrawon yn defnyddio techneg holi effeithiol i helpu disgyblion ddatblygu'u dysgu. Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, fodd bynnag, mae rhediad y wers yn rhy araf. Mewn dosbarthiadau eraill, nid yw athrawon yn addasu gweithgareddau'n ddigon da, gan gynnwys y rhai ar gyfer llythrennedd a rhifedd, i herio disgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl.

Mae pob un o'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Lle mae hwn yn fwyaf effeithiol, mae sylwadau athrawon yn nodi beth mae disgyblion yn ei wneud yn dda a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn rhoi adborth o ansawdd da yn gyson, ac o ganlyniad, nid yw pob disgybl yn gwneud digon o gynnydd. Mewn mwyafrif o ddosbarthiadau, caiff disgyblion gyfleoedd addas i asesu eu dysgu eu hunain. Mae targedau gan bob un o'r disgyblion sy'n canolbwyntio'n briodol ar lythrennedd a rhifedd. I'r rhai mwy abl, nid yw'r rhain bob amser yn ddigon manwl neu'n ddigon heriol i symud dysgu'r disgyblion ymlaen yn effeithiol.

Gwna'r ysgol ddefnydd da o ddata i olrhain cynnydd disgyblion unigol ar draws yr ysgol ac i roi cymorth buddiol i ddisgyblion y mae angen help ychwanegol arnynt gyda'u dysgu.

Mae adroddiadau i rieni yn glir ac yn cynnwys llawer o wybodaeth, ac maent yn nodi cynnydd a meysydd i'w gwella. Maent yn rhoi cyfleoedd addas i ddisgyblion adolygu eu cynnydd eu hunain ac i rieni a gofalwyr ymateb.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

At ei gilydd, mae'r ddarpariaeth ar gyfer byw'n iach a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Ceir trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Un nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw gwaith yr ysgol ar hyrwyddo hylendid deintyddol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd deintyddol y disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais priodol ar hyrwyddo gwerthoedd ac egwyddorion, ac mae disgyblion yn adlewyrchu hyn yn dda drwy'r parch ac ystyriaeth sydd ganddynt i'w gilydd ac i oedolion. Mae trefniadau effeithiol gan yr ysgol ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da a gweithgareddau gwrthfwlio.

Ceir perthnasoedd da ag asiantaethau allanol a gweithwyr proffesiynol eraill i ddarparu cymorth effeithiol i ddisgyblion a'u rhieni. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau gan nyrs yr ysgol a swyddog cyswllt yr heddlu, i sicrhau bod disgyblion yn deall sut i fod yn iach a diogel. Mae gwasanaethau lleferydd ac iaith, gwasanaethau cwnsela, defnydd o grwpiau anogaeth a 'chlwb ymlacio' yn cefnogi anghenion disgyblion sy'n agored i niwed yn effeithiol iawn. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o raglenni ymyrraeth i gefnogi anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cydlynydd anghenion ychwanegol yn cynorthwyo staff yn dda i osod targedau penodol ar gyfer anghenion dysgu disgyblion. Mae staff yn monitro ac adolygu'r rhain yn rheolaidd. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau addas i rieni gyfrannu at adolygiadau o gynnydd eu plentyn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol iawn gydag amgylchedd cadarnhaol a chroesawgar. Mae cynnwys disgyblion o'r ysgol arbennig gyfagos yn rheolaidd mewn gwersi ac yn ystod yr awr ginio yn cefnogi agwedd gadarnhaol a gofalgar yr ysgol yn dda. Caiff pob disgybl fynediad cyfartal at holl weithgareddau'r ysgol ac mae hyn yn helpu sicrhau bod lefelau lles uchel gan y rhan fwyaf o ddisgyblion.

Mae tu mewn yr ysgol yn eang a defnyddir pob ardal yn dda. Mae'r ysgol yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda ac mae ei chyflwr o ran addurn yn dda drwyddi draw. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn olau, yn ysgafn ac yn agored a cheir adnoddau da ynddynt. Mae'r arddangosfeydd yn ddeniadol ac yn dathlu dysgu disgyblion yn llwyddiannus. Caiff y toiledau eu cynnal a'u cadw'n dda, ac maent yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion.

Mae iardiau chwarae a chaeau chwarae eang gan yr ysgol sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ac maent yn cynnwys offer chwarae awyr agored da. Gwna'r staff ddefnydd da o'r amgylchedd awyr agored i wella dysgu disgyblion.

Daethpwyd ag un mater yn ymwneud â lles disgyblion i sylw'r ysgol a'r awdurdod lleol yn ystod yr arolygiad.

| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|---|

## Arweinyddiaeth: Da

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn i'r ysgol, ac o ganlyniad i hynny mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae wedi sefydlu timau rheoli effeithiol yn yr ysgol lle mae gan bob un o'r staff ddealltwriaeth lawn o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae aelodau'r timau hyn wedi'u grymuso i ddarparu strwythur clir ar gyfer rheoli a chyfeirio'r ysgol.

Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo ymddygiadau a disgwyliadau sy'n cyfrannu'n effeithiol at ethos ysgol lle mae disgyblion a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Darparant her briodol i staff, a thrwy ystod o gymorth a hyfforddiant effeithiol, maent yn gwella ac yn datblygu medrau'r staff. Mae'r trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer athrawon a systemau gwerthuso ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu yn drwyadl ac yn cefnogi mentrau gwella'r ysgol yn llwyddiannus.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda ac yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol yn effeithiol. Mae ymwybyddiaeth addas o ddata'r ysgol gan yr aelodau. Maent yn deall pa mor dda y mae perfformiad yn cymharu â pherfformiad ysgolion tebyg ac ysgolion eraill yn ei theulu. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnig her gadarn i'r ysgol ynglŷn â'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i sefydlu'n dda. Ceir mentrau buddiol diweddar i leihau effaith tlodi ar gyflawniad addysgol, er ei bod yn rhy gynnar i farnu effeithiolrwydd y rhain ar hyn o bryd. Mae'r cynllunio ar gyfer y fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol, a'i weithredu, ar gyfnod datblygu priodol.

## Gwella ansawdd: Digonol

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gadarn sydd wedi'i sefydlu'n dda. Mae llawer o staff yn cyfrannu'n effeithiol at ystod o grwpiau dysgu, o fewn yr ysgol ac o fewn y clwstwr lleol o ysgolion. Mae'r grwpiau'n cefnogi blaenoriaethau gwella'r ysgol yn dda, drwy asesu deilliannau ar lefel disgyblion ac arfarnu darpariaeth yr ysgol. Caiff staff sy'n newydd i'r ysgol eu cynorthwyo'n dda gan gydweithwyr. Mae ymweliadau i arsylwi cydweithwyr ac ag ysgolion eraill wedi galluogi staff i ddatblygu'u harfer eu hunain yn llwyddiannus.

Mae rhaglen hunanarfarnu'r ysgol wedi'i sefydlu'n dda ac mae'n seiliedig ar gasglu tystiolaeth uniongyrchol addas. Mae'r ysgol yn casglu data gwerthfawr am ddeilliannau disgyblion, ansawdd gwersi, safonau gwaith disgyblion yn eu llyfrau a barnau rhieni a disgyblion. Mae'n olrhain ac yn defnyddio hyn yn effeithiol i nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt gyda'u dysgu.

Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn dadansoddi'r wybodaeth a gesglir yn ddigonol i nodi'n glir effaith y ddarpariaeth ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni. Mae cynllun gwella'r ysgol yn cynnwys blaenoriaethau priodol a chostau cysylltiedig, ac mae'n nodi'r staff sy'n gyfrifol am gamau gweithredu. Yn gyffredinol, mae targedau'n canolbwyntio ar ddeilliannau disgyblion, ar sail data. Mewn lleiafrif o achosion, nid oes modd mesur meini prawf llwyddo, ac nid ydynt yn nodi'n ddigon clir effaith fwriadedig y mentrau ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion.

Mae menter ddiweddar, yn cyflwyno rhaglen ffoneg strwythuredig, wedi helpu codi perfformiad disgyblion mewn darllen a sillafu. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi mynd i'r afael yn llawn â'r holl argymhellion o arolygiad diwethaf yr ysgol yn 2008. Cyfyngedig yw cynnydd i wella lefel yr her i ddisgyblion mewn gwersi ac o ran sicrhau cysondeb marcio gwaith disgyblion gan athrawon.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod eang o bartneriaid. Mae'r cyfathrebu â rhieni yn effeithiol. Er enghraifft, mae dyddiaduron disgyblion yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol ac yn cynnig cyfle i rieni ac athrawon gyfathrebu'n hawdd. Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am ei gwaith drwy gylchlythyrau a defnydd effeithiol o TGCh. Mae gwefan yr ysgol yn cynnwys system gyfieithu ar y we, sy'n rhoi cymorth da i rieni nad ydynt yn siarad Saesneg. Mae'r cysylltiadau hyn yn galluogi rhieni i roi cymorth mwy effeithiol ar gyfer dysgu eu plentyn.

Hefyd, mae gwaith y swyddog cyswllt teuluoedd a gweithdai i rieni yn creu cysylltiadau cadarn rhwng rhieni a'r ysgol. Mae partneriaeth agos yr ysgol â'r grŵp cyn-ysgol ar y safle yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym yn yr ysgol. Mae'r bartneriaeth gadarn â'r ysgol arbennig gyfagos o fudd i'r ddwy ysgol drwy eu bod yn rhannu adnoddau ac arbenigedd, ac mae'n cynnig cyfleoedd buddiol ar gyfer cynhwysiant. Mae trefniadau partneriaeth â'r ysgol uwchradd leol yn effeithiol o ran sicrhau pontio hwylus i'r disgyblion sy'n trosglwyddo rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Mae'r ysgol yn cydweithredu'n agos ag ysgolion yn y clwstwr i ddatblygu portffolios ar gyfer cymedroli a safoni asesiadau athrawon o waith disgyblion.

Mae'r pennaeth wedi gweithio gyda phartneriaid masnachol i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant ar ystod o strategaethau arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol iawn.

Mae perthynas weithio werthfawr gan yr ysgol ag ystod eang o asiantaethau eraill. Mae'r rhain o fudd i ddisgyblion drwy eu galluogi i wneud cynnydd gwell a thrwy wella eu lles.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn trefnu ei hadnoddau yn dda. Mae cymwysterau priodol gan bob un o'r staff i'w galluogi i gyflwyno cwricwlwm effeithiol. Defnyddir cynorthwywyr addysgu gan yr ysgol yn effeithlon ac maent yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at ddysgu a lles disgyblion. Mae pob un o'r staff yn dilyn rhaglenni hyfforddi a datblygu perthnasol.

Mae'r ysgol yn cysylltu gwariant yn dda â'i hamcanion, targedau a chynlluniau. Mae ganddi drefniadau cyllidebol systematig a thrylwyr. Mae'n monitro ac yn adolygu

gwariant yn drwyadl.  Drwy Grant Amddifadedd Disgyblion Llywodraeth Cymru gall yr ysgol gynorthwyo disgyblion sy’n agored i niwed yn effeithiol, er enghraifft drwy waith y swyddog cyswllt teuluoedd.

O ystyried ansawdd y ddarpariaeth, y safonau y mae’r disgyblion yn eu cyflawni a’u cynnydd yn gyffredinol, mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6642015 - Ysgol Gwynedd CP**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 406 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 26.7 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 45 | 53 | 54 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 88.9 | 96.2 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 45 | 53 | 54 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.9 | 100.0 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 17.8 | 28.3 | 14.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 45 | 53 | 54 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 91.1 | 98.1 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 24.4 | 30.2 | 18.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 45 | 53 | 54 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 97.8 | 98.1 | 96.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 42.2 | 35.8 | 40.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6642015 - Ysgol Gwynedd CP**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 406 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 26.7 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 59 | 67 | 63 | 42 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 81.4 | 82.1 | 81.0 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 59 | 67 | 63 | 42 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 84.7 | 82.1 | 84.1 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 25.4 | 40.3 | 36.5 | 45.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 59 | 67 | 63 | 42 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 83.1 | 82.1 | 84.1 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 33.9 | 34.3 | 38.1 | 40.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 59 | 67 | 63 | 42 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 86.4 | 85.1 | 85.7 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 22.0 | 35.8 | 36.5 | 40.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Cynradd (Cyffredinol)

dynodi'r meincnod - dyma gyfanswm yr holl ymatebion ers Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 100 | 98<br>98% | 2<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 99 | 98<br>99% | 1<br>1% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 99 | 97<br>98% | 2<br>2% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 96% | 4% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 99 | 98<br>99% | 1<br>1% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 100 | 98<br>98% | 2<br>2% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 100 | 97<br>97% | 3<br>3% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 100 | 99<br>99% | 1<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 100 | 98<br>98% | 2<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 99 | 95<br>96% | 4<br>4% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 100 | 99<br>99% | 1<br>1% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 98 | 91<br>93% | 7<br>7% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 99 | 94<br>95% | 5<br>5% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

dynodi'r meincnod - dyma gyfanswm yr holl ymatebion ers Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 196 | 127 | 68 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 65% | 35% | 1% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 196 | 145 | 50 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 74% | 26% | 1% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 196 | 152 | 44 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 196 | 145 | 51 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 196 | 93 | 89 | 3 | 1 | 10 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 47% | 45% | 2% | 1% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 196 | 135 | 60 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 196 | 134 | 62 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 195 | 115 | 77 | 0 | 0 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 59% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 196 | 121 | 67 | 3 | 1 | 4 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 62% | 34% | 2% | 1% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 196 | 142 | 52 | 1 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 195 | 141 | 52 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 192 | 113 | 67 | 1 | 0 | 11 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 59% | 35% | 1% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 196 | 123 | 71 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 63% | 36% | 1% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 195 | 128 | 63 | 1 | 2 | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 66% | 32% | 1% | 1% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 196 | 99<br>51% | 74<br>38% | 7<br>4% | 2<br>1% | 14 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 193 | 126<br>65% | 66<br>34% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 185 | 114<br>62% | 59<br>32% | 1<br>1% | 0<br>0% | 11 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 195 | 136<br>70% | 57<br>29% | 1<br>1% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 196 | 132<br>67% | 60<br>31% | 3<br>2% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Janet Elizabeth Rowlands | Arolygydd Cofnodol |
| Richard Hawkley | Arolygydd Tîm |
| Sheila Birkhead | Arolygydd Tîm |
| Peter Duncan Haworth | Arolygydd Lleyg |
| Rebecca Fox | Arolygydd Cymheiriaid |
| Clive Michael Condon | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mr Griffiths | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.